Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 1169 (Cy. 286)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (sef, yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) yn lle'r un bresennol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1169 (Cy. 286)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Tachwedd 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *5 Rhagfyr 2016* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**).

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, gan adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a Rhan 1 o Atodlen 3 iddi.

(**2**) O.S. 1992/3238 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3949 (Cy. 47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy. 322), 2002/3054 (Cy. 289), 2003/3211 (Cy. 304), 2004/3232 (Cy. 280), 2005/3345 (Cy. 259), 2006/3347 (Cy. 307), 2007/3343 (Cy. 295), 2008/2929 (Cy. 258), 2009/3147 (Cy. 274), 2010/2889 (Cy. 239), 2011/2610 (Cy. 283), 2012/3036 (Cy. 310), 2013/3046 (Cy. 305), 2014/3193 (Cy. 323) a 2015/1905 (Cy. 277).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 1992 wedi eu diwygio fel a ganlyn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny.

(2) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
30 Tachwedd 2016

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Rheoliad 2

## “SCHEDULE 4

## ADULT POPULATION FIGURES

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 55,702 |
| Bridgend/Pen-y-bont ar Ogwr | 113,059 |
| Caerphilly/Caerffili | 141,653 |
| Cardiff/Caerdydd | 283,659 |
| Carmarthenshire/Sir Gaerfyrddin | 148,105 |
| Ceredigion | 62,145 |
| Conwy | 94,643 |
| Denbighshire/Sir Ddinbych | 75,198 |
| Flintshire/Sir y Fflint | 122,051 |
| Gwynedd | 99,361 |
| Isle of Anglesey/Ynys Môn | 56,501 |
| Merthyr Tydfil/Merthyr Tudful | 46,831 |
| Monmouthshire/Sir Fynwy | 74,719 |
| Neath Port Talbot/Castell-nedd Port Talbot | 113,050 |
| Newport/Casnewydd | 114,202 |
| Pembrokeshire/Sir Benfro | 99,015 |
| Powys | 107,712 |
| Rhondda Cynon Taf | 187,694 |
| Swansea/Abertawe | 195,356 |
| Torfaen | 72,726 |
| Vale of Glamorgan/Bro Morgannwg | 100,652 |
| Wrexham/Wrecsam | 107,164” |